## Dydd Sul – Dydd y Cyhoeddi

**Darllen Marc 11:1–11, Mathew 21:1–11;**
**Luc 19:28–40; Ioan 12:12–29**

Dywed pob un o'r efengylau i Iesu gael croeso mawr pan ddaeth i'r Ddinas Sanctaidd er syndod i bawb a phob un. Ni chawn ein cyflyru i gredu y byddai'n derbyn y fath groeso tywysogaidd. Ond dylem gofio fod cannoedd o bobl a fu'n gwrando arno yn traethu'r gwirionedd wedi cyrraedd Jerwsalem ar gyfer yr ŵyl. Ac yr oedd carfan ohonynt yn genedlaetholwyr pybyr ac yn disgwyl chwyldro o dan arweiniad y Crist. Ac felly fe'i croesawyd gyda brwdfrydedd.

Yn ôl Ioan, mae'r hanes yn cychwyn nid gyda Iesu'n galw am ebol asyn, ond gyda'r dyrfa'n taflu palmwydd ac yn mynd i gyfarfod â Iesu gan seinio mewn gorfoledd, 'Halelwia'. Yn ôl Ioan, cafwyd cyfuniad o bererinion a thrigolion maestrefi fel Bethania a oedd yn dal i gofio gweithred iachusol Iesu ar Lasarus. Dyna un o'r rhesymau pennaf am y croeso mawr i'r Meddyg Da. Bu gwyrth ym Methania. Aeth y sôn am y wyrth ar hyd a lled strydoedd Jerwsalem.

Gwelai Iesu yng nghroeso'r dorf wireddu proffwydoliaethau Sechareia ac Eseia (Sechareia 9:9–17; Eseia 62:11). Y geiriau pwysig yw 'Merched Seion' (Eseia) a 'Brenin' (Sechareia). Iesu oedd y Brenin a gludai'r iachawdwriaeth bob amser – trwy ei eiriau pwerus a'i iacháu gwyrthiol.

Eisteddodd Iesu ar yr ebol asyn ac nid ar geffyl. Symbol o heddwch oedd yr ebol asyn, a symbol o ryfel oedd y ceffyl. Ac felly, yn y weithred symbolaidd hon pwysleisiodd Crist neges heddwch. Nid arweinydd milwrol oedd ar daith i'r Ddinas Sanctaidd ond Cymodwr y Cenhedloedd a Chymodwr dynion â Duw. Cyrhaeddodd y gorfoleddwyr a Christ drothwy'r Deml. Aeth Iesu i mewn gan sylwi ar ogoniant y Cysegr a methiant yr awdurdodau i gadw'r adeilad pwysig yn rhydd o fateroliaeth a thrachwant. Nid oedd dim amdani ond aros ei gyfle. Yn y cyfamser, aeth yn ôl at ei gefnogwyr didwyll ym Methania, ef a'i ddisgyblion, i aros yno dros nos.

***D. Ben Rees***